OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 Rhif 973 (Cy. 43 )

# TAI, CYMRU

## Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2000

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *30 Mawrth 2000* |
| *Yn dod i rym - -* | *3 Ebrill 2000* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 3(3) a (4), 30, 31(5) a 146(1) a (2) o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996(**1**) ac a freiniwyd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru bellach i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**2**).

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2000 a deuant i rym ar 3 Ebrill 2000.

**Diwygiadau**

**2.** Mae'r diwygiadau a wnaed i Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai 1996(**3**) gan Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Lloegr) 2000(**4**) (ac eithrio Rheoliadau 7, 9, 10 a 22(5)) a chan Reoliad 2 o Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio Rhif 2) (Lloegr) 2000(**5**) i gael effaith yng Nghymru mewn perthynas â cheisiadau am grant a wneir ar 3 Ebrill 2000 neu wedi hynny.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**6**).

*D. Elis Thomas*
30 Mawrth 2000 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**1**) 1996 p. 53.
(**2**) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 1996/2890, a ddiwygiwyd gan O.S. 1996/3119, 1997/977, 1998/808, 1999/1523 a 1999/3468.
(**4**) O.S. 2000/531.
(**5**) O.S. 2000/910.
(**6**) 1998 p. 38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai 1966 ("y prif Reoliadau") yn gosod y prawf moddion ar gyfer penderfynu swm y grant adnewyddu a'r grant cyfleusterau anabl y caiff awdurdodau tai lleol eu talu i geiswyr sy'n berchennog-feddianwyr a cheiswyr sy'n denantiaid o dan Bennod I o Ran I o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Lloegr) 2000 a Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio Rhif 2) (Lleogr) 2000 yn gymwysadwy i Gymru. Mae'r Rheoliadau hynny yn gwneud diwygiadau i'r prif Reoliadau sy'n ganlyniad i'r newidiadau i Reoliadau Budd-dâl Tai (Cyffredinol) 1987 y seiliwyd y prawf moddion arnynt.

Mae'r Rhealiadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio Rhif 2) (Lloegr) 2000 hefyd yn diddymu rhai darpariaethau'r Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Lloegr) 2000.